Canllaw Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2027 i 2030

Canllaw yw hwn i Gyllideb Ddrafft 2027 i 2028, sy'n cynnwys cynlluniau gwario hyd at 2028 i 2029 ar gyfer costau o ddydd i ddydd a hyd at 2029 i 2030 ar gyfer adeiladau a seilwaith.

Y Gyllideb hon

Ym mis Mai 2026, pleidleisiodd pobl yng Nghymru dros lywodraeth newydd a gofyn i bethau gael eu gwneud yn wahanol. Dyma Gyllideb gyntaf y llywodraeth honno. Mae'n talu am ei chynllun ar gyfer y cyfnod rhwng 2027 a 2030.

Mae arian yn dynn. Daw tua 80% o arian Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac rydyn ni'n codi rhywfaint o'n harian ein hunain drwy drethi sydd wedi'u datganoli. Y flwyddyn nesaf, bydd yr arian hwnnw'n prynu llai nag mae'n ei wneud ar hyn o bryd. Mae'r arian ar gyfer prosiectau adeiladu mawr, fel ysbytai a thai, yn lleihau hefyd.

Mae hynny'n golygu dewisiadau anodd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi:

ailedrych ar fwy na 970 o feysydd gwario

rhoi'r gorau i wneud rhai pethau

symud arian tuag at y pethau mae'n bwriadu eu cyflawni i bobl Cymru

Mae Datganiad Effaith y Gyllideb, sy'n cael ei gyhoeddi ar cyd â hi, yn egluro pwy allai gael ei effeithio gan rai o'r dewisiadau rydyn ni wedi eu gwneud.

Mae'r Gyllideb hon yn cynllunio ar gyfer mwy o amser na blwyddyn. Mae'n cwmpasu'r blynyddoedd 2027 i 2028 a 2028 i 2029, a 3 blynedd ar gyfer prosiectau adeiladu. Mae hyn yn golygu y gall ysbytai, cynghorau ac ysgolion fynd ati i gynllunio.

Y flwyddyn nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn nodi cyllidebau ar gyfer gweddill y tymor, ar ôl Adolygiad Gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

O ble daw arian Llywodraeth Cymru



Y Grant Bloc

£22.3bn (27-28) a £22.8bn (28-29)



Cyfraddau Treth Incwm Cymru

£4.2bn (27-28) a £4.4bn (28-29)



Y Dreth Trafodiadau

£402m (27-28) a £432m (28-29)



Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

£30m (27-28) a £31m (28-29)



Ardrethi Annomestig

£1.2bn (27-28) a £1.3bn (28-29)



Benthyca

£168m (27-28) a £172m (28-29)

Lle mae'r arian yn cael ei wario

Mae cyfanswm y Gyllideb Ddrafft yn fwy na £60 biliwn. Dyma'r arian mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wario rhwng mis Ebrill 2027 a mis Mawrth 2029, a hyd at fis Mawrth 2030 ar gyfer adeiladau a seilwaith.

Gwell iechyd a gofal, a rhestrau aros byrrach

Bydd y Gwasanaeth Iechyd yn cael £500 miliwn o arian ychwanegol yn 2027 i 2028, gan godi i £700 miliwn ychwanegol yn 2028 i 2029. Bydd hyn yn helpu'r Gwasanaeth Iechyd i drin mwy o bobl a lleihau rhestrau aros.

Mae £171 miliwn o ychwanegol hefyd ar gyfer prosiectau adeiladu dros 3 blynedd. Mae hyn yn cynnwys canolfannau newydd ar gyfer llawdriniaethau a thriniaethau wedi'u cynllunio, fel bod pobl yn aros am lai o amser.

Helpu â chostau byw

Gofal plant: Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflwyno gofal plant am ddim i bob plentyn ifanc. Pan fydd y cynnig ar waith yn llawn, bydd pob plentyn rhwng 9 mis a 4 oed yn cael 20 awr o ofal plant am ddim yr wythnos, a hynny am 48 wythnos y flwyddyn. Mae'r Gyllideb hon yn talu am y cam nesaf: £75 miliwn yn 2027 i 2028 a £186 miliwn yn 2028 i 2029.

Cartrefi: Bydd £1.5 biliwn dros 3 blynedd yn helpu i adeiladu 20,000 yn fwy o gartrefi cymdeithasol erbyn 2030. Mae cartrefi cymdeithasol yn cael eu gosod ar rent am brisiau is gan awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai. Bydd yr arian yn helpu hefyd i wneud cartrefi yn rhatach i'w gwresogi, er enghraifft drwy ddarparu inswleiddio gwell i atal gwres rhag dianc.

Cynnal: Bydd £9.2 miliwn dros 2 flynedd yn talu am gynllun peilot Cynnal. Cynllun peilot yw treialu rhywbeth cyn penderfynu a ddylid ei gyflwyno yn ehangach. Mae Cynnal yn daliad wythnosol i deuluoedd â phlant ifanc sy'n hawlio Credyd Cynhwysol.

Treth Incwm: Does dim newid yng nghyfraddau Cymru. Mae pobl Cymru yn talu'r un cyfraddau Treth Incwm â phobl Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Swyddi da ac economi gryfach

Mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu Asiantaeth Arloesi a Datblygu Cymru i helpu busnesau i dyfu a chreu swyddi sy'n talu'n dda. Mae'r Gyllideb yn neilltuo £22 miliwn yn 2027 i 2028 a £36 miliwn yn 2028 i 2029 i ddechrau'r gwaith hwn.

Gwaith yr asiantaeth newydd fydd helpu busnesau Cymru i dyfu a helpu pobl i ddechrau busnesau newydd. Y targed yw creu 500 o fusnesau newydd erbyn 2036.

Codi safonau mewn ysgolion

Awdurdodau lleol sy'n talu am wasanaethau yn eich ardal chi. Mae'r rhain yn cynnwys rhedeg ysgolion a darparu gofal i bobl hŷn a phlant sydd angen cymorth, yn ogystal â chasglu biniau, trwsio ffyrdd, a rhedeg llyfrgelloedd a pharciau. Yn 2027 i 2028, bydd pob awdurdod lleol yn cael o leiaf 2.5% yn fwy o arian nag eleni.

Bydd ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn cael £418 miliwn ar gyfer addysg, a bydd £128 miliwn ohono ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion i ddisgyblion ar incwm isel. Bydd £37 miliwn yn cael ei wario ar gefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae yna £20 miliwn i helpu ysgolion â'r cwricwlwm ac asesu, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd.

Rydyn ni'n buddsoddi £8.8 miliwn dros 2 flynedd yn Nofio Ysgol, y rhaglen nofio am ddim i ysgolion.

Lleihau tlodi plant

Lleihau tlodi plant yw un o brif nodau Llywodraeth Cymru. Mae tri pheth yn y Gyllideb hon yn helpu i gyflawni hynny:

gofal plant am ddim, sy'n helpu rhieni i weithio ac yn arbed arian i deuluoedd

y cynllun peilot Cynnal, sy'n rhoi taliad wythnosol i rai teuluoedd â phlant ifanc

arian ar gyfer cartrefi, fydd yn helpu i adeiladu mwy o gartrefi cymdeithasol a gwneud cartrefi yn rhatach i'w gwresogi

Sefyll dros Gymru

Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau'r achos i Gymru gael cyfran decach o gyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae hefyd eisiau mwy o ryddid i reoli ei harian ei hun, a mwy o arian i'w fuddsoddi mewn rheilffyrdd.

Mae'r Gyllideb yn cynnwys £6.6 miliwn i hyrwyddo Cymru i'r byd. Bydd hefyd yn talu am ddigwyddiadau chwaraeon mawr sy'n ysbrydoli pobl. Mae'r rhain yn cynnwys y Tour de France yng Nghymru yn 2027 a chystadleuaeth pêl-droed y dynion UEFA Euro 2028, gyda £21.7 miliwn i helpu i'w cynnal.

Gwell llywodraeth

Fydd Llywodraeth Cymru ddim yn mesur llwyddiant y Gyllideb hon yn ôl faint mae'n ei wario, ond yn hytrach yn ôl y gwahaniaeth y bydd yn ei wneud i bobl. Mae hyn yn wir am bob buddsoddiad sydd ynddi.

Un enghraifft yw cronfa newydd gwerth £25 miliwn i helpu gwasanaethau cyhoeddus i weithio'n well a gwneud gwell defnydd o arian cyhoeddus. Ymhlith y buddsoddiadau eraill mae £30 miliwn i weithredu ar newid hinsawdd, ailgylchu ac adfer natur, a £30 miliwn ar gyfer rhwydwaith cenedlaethol o bwyntiau gwefru cerbydau trydan.

Sut byddwn yn gwario ein harian

	Cyfanswm Refeniw a Chyfalaf		Cyfalaf yn unig
	2027 to 2028	2028 to 2029	2029 to 2030
Iechyd a Gofal	£13,121m	£13,300m	£674m
Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio	£7,214m	£7,331m	£1,448m
Addysg a'r Gymraeg	£2,510m	£2,510m	£391m
Menter, Cysylltedd ac Ynni	£1,683m	£1,631m	£785m
Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd	£902m	£911m	£317m
Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb	£599m	£710m	£21m
Diwylliant a Chwaraeon	£193m	£198m	£65m
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	£614m	£628m	£20m

Y camau nesaf

Cyllideb Ddrafft yw hon, sy'n rhoi gwybod i bobl sut hoffai Llywodraeth Cymru wario ei harian. Fydd y Gyllideb ddim yn cael ei chadarnhau hyd nes i'r Senedd bleidleisio i'w phasio.

Bydd y Senedd yn mynd ati nawr i graffu'n fanwl ar y Gyllideb Ddrafft. Bydd pwyllgorau'r Senedd yn holi'r Gweinidog Cabinet dros Gyllid, Elin Jones AS a Gweinidogion eraill y Cabinet.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol yng ngwanwyn 2027.

Yna bydd Aelodau'r Senedd yn pleidleisio arni.

Gallwch ddarllen dogfennau llawn y Gyllideb Ddrafft yn:

llyw.cymru/cyllideb-ddrafft-2027-2028

OGL © Hawlfraint y Goron 20XX, Llywodraeth Cymru, WG55442
ISBN digidol 978-1-80853-750-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg.